



Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

Polisi Bagiau Tywod

Tachwedd 2017

Cynnwys

1	Cylch Gorchwyl.....	1
2	Cefndir.....	1
3	Polisi Bagiau Tywod	1
4	Canllaw Bagiau Tywod	2
5	Cynnyrch Amgen i Amddiffyn Rhag Llifogydd	2

Argraffiad a Chofnod Diwygio

Teitl y Ddogfen	Polisi Bagiau Tywod
Fersiwn	2
Statws	Terfynol
Enw ffeil	Sandbag Policy v2 September 2017

Diwygiad	Nodiadau	Dyddiad
R2	Copi Terfynol	15/09/2017

1 Cylch Gorchwyl

1.1 Mae'r polisi hwn wedi'i gynhyrchu i roi arweiniad clir ar sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn blaenoriaethu'r dosbarthiad o fagiau tywod fel ffordd o amddiffyn isadeiledd critigol a chynorthwyo preswylwyr. Mae'n egluro beth fydd CBSC yn ei wneud, a beth na fydd yn ei wneud mewn perthynas â darparu bagiau tywod yn ystod llifogydd.

2 Cefndir

2.1 Mae llifogydd yn ddigwyddiad naturiol a gallant ddigwydd wedi stormydd ar yr arfordir, glaw am gyfnod hir ac yn ystod achlysuron o law trwm. Ni all yr un system ddraenio na mesurau amddiffyn rhag llifogydd amddiffyn a lleihau'r perygl o lifogydd yn ystod stormydd eithafol.

2.2 Nid oes gan CBSC ddyletswydd gyfreithiol i roi bagiau tywod i adeiladau preswyl neu fasnachol i'w hamddiffyn rhag llifogydd, oni bai bod tarddiad y llifogydd yn teithio o ased sydd ym meddiant y Cyngor, fel y briffordd neu gwrs dŵr sy'n teithio drwy dir sydd ym meddiant yr awdurdod.

2.3 Tra cydnabyddir bod bagiau tywod yn ddefnyddiol er mwyn helpu i ddargyfeirio a chyfeirio llif, fel ar hyd priffordd, nodir hefyd bod cyfyngiadau sylweddol o ran eu defnyddio pan fo cyfnodau hir o lif uchel neu ddŵr sefydlog. Yn ogystal, nid yw bagiau tywod yn effeithiol wrth amddiffyn eiddo rhag llifogydd dŵr daear na pan fo carthffosydd yn achosi llifogydd o fewn eiddo.

2.4 Ar eu gorau, dim ond siawns o 40% sydd gan fagiau tywod o gadw dŵr allan o eiddo'n llwyddiannus. Gan gadw hyn mewn cof, anogir perchnogion tŷ a busnesau i weithredu eu mesurau eu hunain i'w hamddiffyn rhag llifogydd, drwy brynu cynnyrch wedi'u dylunio'n benodol i'w hamddiffyn rhag llifogydd. Mae'r elusen ddi-elw, y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol, yn darparu cyngor ar y cynnyrch amrywiol i alluogi preswylwyr i weithredu 'Amddiffyniad Eiddo' sy'n cynnwys rhestr o gynnyrch sydd wedi derbyn statws nod barcud y BSI. Nid yw bagiau tywod wedi cael yr achrediad yma ond eto maent yn parhau i fod yn amddiffyniad 'wrth gefn' i lawer o breswylwyr.

3 Polisi Bagiau Tywod

3.1 Mae'r Polisi hwn yn nodi'r broses o lunio penderfyniadau ynglŷn â phryd mae bagiau tywod yn cael eu hystyried yn ddull priodol o amddiffyn rhag llifogydd. Gall hyn fod yn gyfuniad o leoliad, perchnogaeth ased a difrifoldeb y llifogydd.

3.2 Yn ystod cyfnod o dywydd garw, bydd CBSC yn gwneud pob ymdrech i gynorthwyo preswylwyr sy'n wynebu risg ar unwaith o lifogydd, ond mae hyn yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael adeg y digwyddiad. Ni ellir cynnig unrhyw sicrwydd i breswylwyr y gallwn gynorthwyo gyda phob achos o lifogydd. Os yw preswylwyr yn bryderus y gallant fod yn wynebu risg o lifogydd, argymhellir yn gryf eu bod yn ystyried gosod eu mesurau gwrthsefyll llifogydd eu hunain cyn achos o lifogydd. Gellir cael cyngor gan y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol, neu drwy gysylltu ag adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau.

BYDD Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

1. Yn dosbarthu bagiau tywod i ddargyfeirio llif y dŵr a ddaw o asedau'r Awdurdod Lleol fel cwteri'r priffyrdd, ceuffosydd a ffosydd yn ychwanegol at y cwrs dŵr, ceuffosydd a ffosydd sy'n gorwedd o fewn tir sy'n eiddo i'r awdurdod lleol;
2. Yn ddibynnol ar y nifer sydd ar gael; yn gosod bagiau tywod mewn lleoliadau lle mae risg ar unwaith i fywyd neu eiddo. Bydd y penderfyniad i osod bagiau tywod yn cael ei wneud ar ddisgresiwn y swyddogion ymateb. Pan fo'n bosibl, rhoddir blaenoriaeth i breswylwyr oedrannus a bregus; a,
3. Chasglu bagiau tywod o dir sy'n eiddo i'r awdurdod a manau agored cyhoeddus ac yn cael gwared arnynt yn y dull priodol.

NI FYDD Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

1. Yn dosbarthu bagiau tywod i eiddo preifat cyn achos o lifogydd.
2. Yn dosbarthu bagiau tywod i eiddo masnachol ar unrhyw adeg cyn, yn ystod nac ar ôl achos o lifogydd, oni bai ei bod yn angenrheidiol o dan amgylchiadau eithriadol i amddiffyn isadeiledd hanfodol a/neu breswyl cyfagos rhag difrod o lifogydd;
3. Yn caniatáu i breswylwyr gasglu bagiau tywod o storffeydd CBSC;
4. Yn casglu bagiau tywod o dir preifat, eiddo preswyl (ac eithrio pan fyddant wedi eu dosbarthu gan CBSC i breswylwyr oedrannus neu fregus), neu eiddo masnachol, ac nid yn;
5. Casglu bagiau tywod nad ydynt wedi eu dosbarthu gan CBSC.

4 Canllaw Bagiau Tywod

- 6.1 Mae canllaw ar sut i ddefnyddio bagiau tywod yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/sandbags-how-to-use-them-to-prepare-for-a-flood>

5 Cynnyrch Amgen i Amddiffyn Rhag Llifogydd

- 7.1 Mae rhestr o gynnyrch amddiffyn rhag llifogydd yma:

<http://bluepages.org.uk/>